CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Adroddiad Blynyddol gan Gynghorydd 2021/2022

Hwn yw'r adroddiad gan y Cynghorydd isod ar ei weithgareddau allweddol yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31/03/2022. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid i unrhyw bwrpas arall. Safbwyntiau'r Cynghorydd unigol yw'r rhai a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid ydynt, o angenrheidrwydd, yn adlewyrchu barn Cyngor Sir Ynys Môn.

**Cynghorydd: Carwyn Elias Jones**
**Parti/Grŵp: Plaid Cymru** **Ward: Seiriol**

## 1 - Rôl a Chyfrifoldebau

| Rhwng 05/2021 a 04/2022, eisteddais ar y prif bwyllgorau / is-bwyllgorau canlynol: | Crynodeb o Bresenoldeb |
|---|---|
| Pwyllgor Gwaith | http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgAttendance |
| Cyngor Sir Ynys Môn | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd | |
| Is-bwyllgor Indemniadau | |
| Pwyllgor Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn, ac yna symudais i'r Gymdeithas | |
| Pwyllgor Adfywio – Y Gymdeithas | |
| Llywodraethwr Ysgol / Ysgol Gynradd Llandegfan | |
| Llywodraethwr Ysgol / Ysgol David Hughes | |

Rwyf wedi cynrychioli'r Cyngor ar y cyrff allanol canlynol:

| Corff allanol | Crynodeb o rôl a chyfraniad |
|---|---|
| Partneriaeth Cyrchfan Ynys Môn | Trafodaethau partneriaeth twristiaeth |
| Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru | Ymuno â chynrychiolwyr ac aelodau'r sector ar gyfer trafodaethau ac i dderbyn gwybodaeth |

## 2 - Gweithgareddau yn y Ward

Mae'n debyg mai un o'r cyfraniadau mwyaf emosiynol oedd cymryd rhan mewn Gwylnos ar gyfer Wcráin a gynhaliwyd ym Miwmares, gyda fy nghyd aelodau, Cyngor Tref Biwmares a'r Eglwys yng Nghymru.

Mynychais gyfarfodydd Cynghorau cymuned Llanddona, Cwm Cadnant, Llangoed a Phenmon a Chyngor Tref Biwmares yn rheolaidd.

Cynorthwyais sawl un gyda materion personol, yn ymwneud a thai, gofal cymdeithasol a materion megis priffyrdd ac iechyd yr amgylchedd.

Aelod o bwyllgor Sgwâr y Castell, sef grŵp newydd a sefydlwyd i oruchwylio gweithgareddau yn yr ardal hon o Fiwmares.

Gweithio gyda Menter Môn i ddatblygu cysylltiad *wi-fi* gwell yng nghanol trefi, a dewiswyd Biwmares fel un canolfan, a bu gwaith yn mynd rhagddo yn y cefndir.

Pan oedd y clwb ffermwyr ifanc yn ward Seiriol angen arweinydd er mwyn medru parhau, camais i'r adwy a chefnogais Glwb Llangoed, gan drefnu amrywiaeth o weithgareddau wythnosol ar gyfer y bobl ifanc, yn ogystal â chystadlu yn yr Eisteddfod Sirol a'r Rali.

Roeddwn yn falch o gefnogi'r cynllun ym Mill Lane, Biwmares, ac roeddwn yn falch o'i weld yn cael ei adeiladu a'i roi ar waith er mwyn helpu i amddiffyn busnesau a phreswylwyr rhag llifogydd. Enillodd y cynllun arloesol hwn, y cyntaf o'i fath, wobr genedlaethol.

Ar y cyd a'm cyd Gynghorwyr yn Ward Seiriol a'r Aelod Senedd, codais bryderon am lifogydd ym Mae Llanfaes (*Fryars Bay*) a phwysais ar Lywodraeth Cymru i weithredu.

Trafodaethau parhaus gyda'r contractwr sy'n gosod pibell 70m yn Llandegfan er mwyn lliniaru llifogydd.

Rhoddais gefnogaeth i ddarparu mwy o ddiffibriliwyr yn Ward Seiriol a chyfleoedd hyfforddi ar gyfer pobl leol.

**3 - Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Cefnogais nifer o fentrau, gan gynnwys ymgyrch Biwmares ddi-blastig, menter awyr dywyll a'r ymgyrch ailddarganfod Ynys Môn yn ddiogel.

Darn mawr o waith oedd arwain yr adolygiad i'r defnydd o'r Fenai a gweithio gyda nifer o randdeiliaid i gynhyrchu cod ymddygiad a'i lansio trwy ymgyrch gyhoeddus.

Cefnogais nifer o elusennau ac achosion da.

Fel deilydd portffolio, arweiniais y gwaith o ddarparu nifer o unedau busnes newydd sbon er mwyn cefnogi Economi Ynys Môn.

Cefnogais y prosiect ynni llanw oddi ar arfordir Ynys Môn er mwyn sicrhau cyllid a chymeradwyaeth i'r prosiect.

**4 - Dysgu a Datblygu**

Mynychais ddigwyddiadau, ar-lein ac wyneb yn wyneb, yn fy rôl fel Aelod Etholedig, Llywodraethwr Ysgol ac mewn capasiti proffesiynol yn fy swydd yn y byd Addysg.

http://democratiaeth.ynysmon.gov.uk/mgListTraining

**5 - Gweithgareddau a Materion Eraill**

Unwaith eto, mae amddiffyn cymunedau a gwasanaethau'r cyngor wedi bod yn flaenoriaeth yn ystod y pandemig Covid ac, unwaith eto, manteisiaf ar y cyfle hwn i ddiolch i bob gweithiwr allweddol yn Ward Seiriol a thu hwnt am eu gwaith gwych a'u cydweithrediad.

Mae'n rhaid i mi ddiolch i'm cyd Gynghorwyr yn Ward Seiriol, Alun Roberts a Gary Pritchard, am eu hymroddiad, eu cefnogaeth a'u cydweithrediad. Mae'n bleser gweithio ochr yn ochr â nhw.

Wrth i ddiwedd tymor 5 mlynedd y Cyngor agosáu, rhaid i mi ddatgan fod cynrychioli fy ward wedi bod yn fraint enfawr a bu'n brofiad gwerthfawr a phleserus ac, os caf fy ail-ethol, rwyf yn edrych ymlaen at barhau i wasanaethu am dymor arall.

Ceir rhagor o wybodaeth amdanaf yma:
Cyngor Sir Ynys Môn (ynysmon.gov.uk)

| Cynghorydd: Carwyn Elias Jones | 2021/22 |
|---|---|